OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 646

## Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018

**Pasbortau anifeiliaid anwes: ffioedd**

**5.**—(1) Y ffi sy'n daladwy i Weinidogion Cymru gan filfeddyg awdurdodedig am swp o 20 dogfen adnabod wag yw £56.

(2) Codir cost postio a phecynnu ar y milfeddyg awdurdodedig—

(a) pan na fo'r dogfennau adnabod yn cael eu casglu yn bersonol;

(b) pan fo'r milfeddyg awdurdodedig yn gofyn i'r dogfennau adnabod gael eu hanfon drwy'r post.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "dogfen adnabod" ("*identification document*") yw dogfen sydd i'w dyroddi a'i llenwi gan filfeddyg awdurdodedig yn unol ag Erthygl 22 o Reoliad (EU) Rhif 576/2013 ar gyfer symud anifeiliaid anwes o fewn yr UE; ac

ystyr "milfeddyg awdurdodedig" ("*authorised veterinarian*") yw milfeddyg y mae Gweinidogion Cymru wedi ei awdurdodi i gyflawni tasgau yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 576/2013([1]).

([1]) OJ Rhif L 178, 28.6.2013, t. 1.